



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2008 Rhif 3152 (Cy.280)

2008 No. 3152 (W.280)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

Gorchymyn Rhondda Cynon Taf
(Cymunedau Llanharan, Llanhari,
Llantrisant a Phont-y-clun)
2008

The Rhondda Cynon Taf
(Llanharan, Llanharry, Llantrisant
and Pont-y-clun Communities)
Order 2008

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Gwneir y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'n rhoi eu heffaith i gynigion Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru ("y Comisiwn"), ac yntau wedi adrodd ym Mis Chwefror 2008 ar ei adolygiad o ffiniau cymunedol mewn rhan o Fwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Argymhellodd adroddiad y Comisiwn newidiadau i ffiniau cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi eu heffaith i argymhellion y Comisiwn heb addasiadau.

This Order is made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972. It gives effect to proposals of the Local Government Boundary Commission for Wales ("the Commission"), which reported in February 2008 on its review of community boundaries in part of the County Borough of Rhondda Cynon Taf. The Commission's report recommended changes to the boundaries of Llanharan, Llanharry, Llantrisant and Pont-y-clun communities and consequential changes to electoral arrangements. This Order gives effect to the Commission's recommendations without modification.

Mae printiau o'r mapiau yn dangos y ffiniau wedi eu hadneuo a gellir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Tonypany, ac yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mhare Cathays, Caerdydd (Is-adran Polisi Llywodraeth Leol).

Prints of the maps showing the boundaries are deposited and may be inspected during normal office hours at the offices of Rhondda Cynon Taf County Borough Council, Tonypany, and at the offices of the Welsh Assembly Government at Cathays Park, Cardiff (Local Government Policy Division).

Mae Rheoliadau Newid Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 y cyfeirir atynt yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol ac atodol ynglyn ag effaith a gweithredu gorchymynion megis y rhain.

The Local Government Area Changes Regulations 1976 referred to in article 2 of this Order contain incidental, consequential, transitional and supplementary provisions about the effect and implementation of orders such as this.

2008 Rhif 3152 (Cy.280)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Gorchymyn Rhondda Cynon Taf
(Cymunedau Llanharan, Llanhari,
Llantrisant a Phont-y-clun)
2008**

Gwnaed

8 Rhagfyr 2008

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) i (4)

Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, wedi cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(1), dyddiedig Chwefror 2008 ar eu hadolygiad o gymunedau o fewn rhan o Fwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'u cynigion ar eu cyfer.

Penderfynodd Gweinidogion Cymru roi eu heffaith i'r cynigion hynny heb addasiadau.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd wedi'u breinio bellach ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(2):

(1) 1972 p.70.

(2) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

2008 No. 3152 (W.280)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**The Rhondda Cynon Taf
(Llanharan, Llanharry, Llantrisant
and Pont-y-clun Communities)
Order 2008**

Made

8 December 2008

*Coming into force in accordance with article
1(2) to (4)*

The Local Government Boundary Commission for Wales have, in accordance with sections 54(1) and 58(1) of the Local Government Act 1972(1), submitted to the Welsh Ministers a report dated February 2008 on their review of, and proposals for, communities within part of the County Borough of Rhondda Cynon Taf.

The Welsh Ministers have decided to give effect to those proposals without modification.

More than six weeks have elapsed since those proposals were submitted to the Welsh Ministers.

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 58(2) of the Local Government Act 1972 and now vested in them so far as exercisable in relation to Wales(2):

(1) 1972 c.70.

(2) The powers of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales(Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and are now vested in the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (2006 c.32).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), at unrhyw ddiben a osodir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Chwefror 2009.

(3) Daw erthygl 8 i rym—

(a) at ddibenion gweithrediadau rhagarweiniol i unrhyw etholiad sydd i'w gynnal neu sy'n ymwneud ag unrhyw etholiad sydd i'w gynnal ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr yn 2012, ar 15 Hydref 2011;

(b) at bob diben arall, ar ddiwrnod arferolethol cynghorwyr yn 2012.

(4) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2009, sef y dyddiad penodedig at ddibenion y Rheoliadau hyn.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Map A" yw'r map sydd wedi'i farcio "Map A, Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008" ac sydd wedi'i adneuo yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "Map B" yw'r map sydd wedi'i farcio "Map B, Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008" ac sydd wedi'i adneuo yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "Map C" yw'r map sydd wedi'i farcio "Map C, Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008" ac sydd wedi'i adneuo yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newid Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (1);

mae unrhyw gyfeiriad at adran etholiadol yn gyfeiriad at adran etholiadol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; a

pan ddangosir ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, llwybr troed, cwrs dwr neu nodwedd ddaearyddol cyffelyb, rhaid ei thrin fel petae yn rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd honno.

(1) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn statudol hwn).

Title and commencement

1.—(1) The title of this Order is The Rhondda Cynon Taf (Llanharan, Llanharry, Llantrisant and Pont-y-clun Communities) Order 2008.

(2) Subject to paragraph (3), for any purpose set out in regulation 4(1) of the Regulations, this Order comes into force on 1 February 2009.

(3) Article 8 comes into force —

(a) for the purpose of proceedings preliminary or relating to any election to be held on the ordinary day of election of councillors in 2012, on 15 October 2011;

(b) for all other purposes, on the ordinary day for election of councillors in 2012.

(4) For all other purposes, this Order comes into force on 1 April 2009, which is the appointed day for the purposes of the Regulations.

Interpretation

2. In this Order—

"the Regulations" ("*y Rheoliadau*") means the Local Government Area Changes Regulations 1976(1);

"Map A" means the map marked "Map A of the Rhondda Cynon Taf (Llanharan, Llanharry, Llantrisant and Pont-y-clun Communities) Order 2008" and deposited in accordance with Regulation 5 of the Regulations;

"Map B" means the map marked "Map B of the Rhondda Cynon Taf (Llanharan, Llanharry, Llantrisant and Pont-y-clun Communities) Order 2008" and deposited in accordance with Regulation 5 of the Regulations;

"Map C" means the map marked "Map C of the Rhondda Cynon Taf (Llanharan, Llanharry, Llantrisant and Pont-y-clun Communities) Order 2008" and deposited in accordance with Regulation 5 of the Regulations;

any reference to an electoral division is a reference to an electoral division of the County Borough of Rhondda Cynon Taf; and

where a boundary is shown on a map as running along a road, railway line, footway, watercourse or similar geographical feature, it is to be treated as running along the centre line of the feature.

(1) S.I. 1976/246 (as amended by various statutory instruments which amendments are not relevant to this statutory instrument).

Llanharan a Phont-y-clun - newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

3. Mae'r rhan honno o gymuned Llanharan a ddangosir fel ardal resog "A" ar Fap A—

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pont-y-clun;
- (b) yn ffurfio rhan o ward Cefnyrhendy yng nghymuned Pont-y-clun; ac
- (c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pont-y-clun.

Llantrisant a Phont-y-clun - newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol.

4. Mae'r rhan honno o gymuned Llantrisant a ddangosir fel ardal resog "B" ar Fap A—

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pont-y-clun;
- (b) yn ffurfio rhan o ward Cefnyrhendy o fewn cymuned Pont-y-clun; ac
- (c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pont-y-clun.

Llanharan a Llantrisant - newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol.

5. Mae'r rhan honno o gymuned Llanharan a ddangosir fel ardal resog "C" ar Fap A—

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llantrisant;
- (b) yn ffurfio rhan o ward Tonysguboriau o fewn cymuned Llantrisant; ac
- (c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Tonysguboriau.

Llanhari a Phont-y-clun - newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol.

6. Mae'r rhan honno o gymuned Llanhari a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap B—

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pont-y-clun;
- (b) yn ffurfio rhan o ward of Maes-y-felin o fewn cymuned Pont-y-clun; ac
- (c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pont-y-clun.

7. Mae'r rhan honno o gymuned Pont-y-clun a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap C—

Llanharan and Pont-y-clun - change in community areas and consequential changes to electoral arrangements

3. That part of the community of Llanharan shown as hatched area "A" on Map A—

- (a) is transferred to the community of Pont-y-clun;
- (b) forms part of the Cefnyrhendy ward of the community of Pont-y-clun; and
- (c) forms part of the electoral division of Pont-y-clun.

Llantrisant and Pont-y-clun - change in community areas and consequential changes to electoral arrangements.

4. The part of the community of Llantrisant shown as hatched area "B" on Map A—

- (a) is transferred to the community of Pont-y-clun;
- (b) forms part of the Cefnyrhendy ward within the community of Pont-y-clun; and
- (c) forms part of the electoral division of Pont-y-clun.

Llanharan and Llantrisant - change in community areas and consequential changes to electoral arrangements.

5. The part of the community of Llanharan shown as hatched area "C" on Map A—

- (a) is transferred to the community of Llantrisant;
- (b) forms part of the Talbot Green ward within the community of Llantrisant; and
- (c) forms part of the electoral division of Talbot Green.

Llanhari and Pont-y-clun - change in community areas and consequential changes to electoral arrangements.

6. The part of the community of Llanhari shown hatched on Map B—

- (a) is transferred to the community of Pont-y-clun;
- (b) forms part of the Maes-y-felin ward within the community of Pont-y-clun; and
- (c) forms part of the electoral division of Pont-y-clun.

7. The part of the community of Pont-y-clun shown hatched on Map C—

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llanhari;
- (b) yn ffurfio rhan o ward Llanhari o fewn cymuned Llanharri; ac
- (c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Llanhari.

8. Yng nghymuned Pont-y-clun y nifer o gynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Cefnyrhendy yw 5, y nifer ar gyfer ward Groes-faen yw 1, y nifer ar gyfer ward Maes-y-felin yw 4 a'r nifer ar gyfer ward Meisgyn yw 1.

- (a) is transferred to the community of Llanharry;
- (b) forms part of the Llanharry ward within the community of Llanharry; and
- (c) forms part of the electoral division of Llanharry.

8. In the community of Pont-y-clun the number of councillors to be elected for the Cefnyrhendy ward is 5, for the Groes-faen ward is 1, for the Maes-y-felin ward is 4 and for the Miskin ward is 1.

Brian Gibbons


Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

8 Rhagfyr 2008

8 December 2008


Map A Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008



Mae'r map hwn yn seiliedig ar fap yr Arolwg Ordans gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron 2008. Cedwir pob hawl. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain ar erlyn neu achos sifil. Rhif y Drwydded: 100017916

127.08-09a Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map A of the Rhondda Cynon Taf (Llanharan, Llanharry, Llantrisant and Pont-y-clun Communities) Order 2008



This map is based upon the Ordnance Survey map by the Welsh Assembly Government with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2008. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916

127.08-09a Cartographics
Welsh Assembly Government


**Map B of the Rhondda Cynon Taf
(Llanharan, Llanharry, Llantrisant and Pont-y-clun Communities) Order 2008**



This map is based upon the Ordnance Survey map by the Welsh Assembly Government with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2008. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916

127.08-09b Cartographics
Welsh Assembly Government


**Map C Gorchymyn Rhondda Cynon Taf
(Cymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant a Phont-y-clun) 2008**



Mae'r map hwn yn seiliedig ar fap yr Arolwg Ordnans gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron 2008. Cedwir pob hawl. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain ar ertyn neu achos sifil. Rhif y Drwydded: 100017916

127.08-09c Cartograffeg, Lywodraeth Cynulliad Cymru

**Map C of the Rhondda Cynon Taf
(Llanharan, Llanharry, Llantrisant and Pont-y-clun Communities) Order 2008**



This map is based upon the Ordnance Survey map by the Welsh Assembly Government with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2008. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916

ST0180 & 0280 (parts)
127.08-09c Cartographics
Welsh Assembly Government

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2008 Rhif 3152 (Cy.280)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Gorchymyn Rhondda Cynon Taf
(Cymunedau Llanharan, Llanhari,
Llantrisant a Phont-y-clun)
2008

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2008 No. 3152 (W.280)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Rhondda Cynon Taf
(Llanharan, Llanharry, Llantrisant
and Pont-y-clun Communities)
Order 2008

© Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£5.00

W408/12/08

ON